

PYSGODFA MÔR GYLLYLL LLANFAIRFECHAN A PHENMAENMAWR



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

HYSBYSIAD CYHOEDDUS a gyhoeddir yn unol ag

Is-ddedf 16 (Pysgodfa Pysgod Cregyn – Cau Dros Dro) cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr

MAE GWEINIDOGION CYMRU YN HYSBYSU, yn unol ag Is-ddedf 16 (Pysgodfa Pysgod Cregyn – cau dros dro) hen Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr¹, bod y gwelyau môr gyllyll (*Ensis spp.*) yn yr ardaloedd a ddiffinnir isod ("yr Ardaloedd") **ar gau** i gasglwyr môr gyllyll o **00:01 ar 1af Ionawr 2026 tan 23:59 ar 31ain Rhagfyr 2026**.

Ni chaiff unrhyw un bysgota, cymryd na tharddu ar unrhyw fôr gyllyll mewn unrhyw wely neu ran o wely a gaewyd gan yr Hysbysiad hwn.

Yr Ardaloedd

Yr Ardaloedd a gaewyd gan yr hysbysiad hwn yw Traethau Llanfairfechan a Phenmaenmawr sydd yn is na llinell y penllanw uchaf rhwng Afon Llanfairfechan yn Llanfairfechan i'r gorllewin a phen dwyreiniol Rhodfa Penmaenmawr yn y dwyrain.

Cyhoeddir yr Hysbysiad hwn gan Ysgrifennydd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd.

Dyddiad yr hysbysiad: 31 Rhagfyr 2025

Nodiadau:

1. Gwaherddir pysgota am fôr gyllyll yn yr Ardaloedd hyn at unrhyw bwrpas a thrwy unrhyw ddull am y cyfnod a nodir uchod.
2. Mae'r hysbysiad cau wedi ei wneud er mwyn rheoleiddio'r pysgodfeydd ac i gadw ac adfer y stociau môr gyllyll.

RHAGOR O WYBODAETH

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r cau, cysylltwch â'r:

Llywodraeth Cymru, Pysgodfeydd,
Suite 3, Cedar Court, Pennaeth Parc Busnes Hafan,
Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500
E-bost: Pysgodfeydd@llyw.cymru

¹ Mae is-ddedf 16 hen Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr bellach mewn grym, i'r graddau y gallai fod wedi cael ei gwneud gan Weinidogion Cymru, fel pe bai wedi'i gwneud gan Weinidogion Cymru mewn Offeryn Statudol yn unol ag Erthygl 13(3) ac Atodlen 4 Gorchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (c.42)).